# Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
# Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai o'r prif newidiadau a wnaed i'r *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Dirprwy Weinidog"), ar 28 Ionawr 2013, a phenderfynodd y Pwyllgor Busnes y dylai fod yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor") ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Clywodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd dystiolaeth ynghylch y Bil yng Nghyfnod 1 gan gyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis Gorffennaf 2013. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar y Bil yn yr un mis hefyd. Cymeradwywyd y Bil yng Nghyfnod 1 gan y Cynulliad yn dilyn dadl ynghylch ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Hydref 2013.

Dechreuodd cyfnod 2 ar 9 Hydref 2013. Cyflwynwyd cyfanswm o 565 o welliannau, gan gynnwys 396 gan Lywodraeth Cymru. Cyfarfu'r Pwyllgor i drafod a gwaredu'r gwelliannau ar 13 Tachwedd, 27 Tachwedd, 5 Rhagfyr a 11 Rhagfyr 2013.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y ddogfen **Crynodeb o Fil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

***Nodwch fod y rhifau isod yn cyfeirio at adrannau'r Bil fel y'i cyflwynwyd.***

### Ystyr llesiant

- Roedd **Gwelliant 71** (William Graham) yn ychwanegu 'addasrwydd llety preswyl' at ystyr llesiant yn adran 2, gan adlewyrchu argymhelliad 6 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

### Dyletswyddau hollgyffredinol ynglŷn â llesiant

- Roedd **gwelliannau 417-421** i adran 4 yn nodi'r egwyddorion allweddol y mae'n rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, urddas yr unigolyn, anghenion diwylliannol (gan gynnwys iaith), y gallu i gyfathrebu ac annibyniaeth. Roedd hyn yn adlewyrchu tystiolaeth a gafwyd yng Nghyfnod 1 ynglŷn â chynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil.

### Gwasanaethau ataliol

- Roedd **gwelliant 84** (fel y'i diwygiwyd) (William Graham) hefyd yn rhoi pwyslais ar fyw'n annibynnol drwy ei gynnwys fel un o'r dibenion ar gyfer gwasanaethau ataliol, mewn fersiwn ddiwygiedig o adran 6.

### Gwybodaeth, cyngor a chymorth

- Roedd **gwelliant 424** yn ychwanegu gwybodaeth ariannol, gan gynnwys gwybodaeth am daliadau uniongyrchol, at y wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei darparu o dan adran 8.

## Asesiadau

- Roedd **gwelliannau 10-15, 20 a 21** yn ehangu'r ystod o faterion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth gynnal asesiad o anghenion oedolion, plant a gofalwyr, er enghraifft, y graddau y mae gwasanaethau ataliol, gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau angenrheidiol. Roedd y diwygiadau hyn hefyd yn atgyfnerthu'r rhan y mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ei chwarae mewn asesiadau.

## Diwallu anghenion gofal a chymorth

- Roedd **gwelliannau 29 a 30** yn diwygio adran 21 i ddileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal oedolyn os bydd gofalwr eisoes yn diwallu'r rhain. **Roedd gwelliant 32** yn adran 23 yn cael effaith debyg  yn achos plant.

## Taliadau uniongyrchol

- Roedd **gwelliannau 504, 122 (fel y'i diwygiwyd) (Kirsty Williams) a 123** (William Graham) yn ychwanegu taliadau (gan gynnwys taliadau uniongyrchol); cymhorthion ac addasiadau (fel y'u diwygiwyd); a therapi galwedigaethol, yn y drefn honno, at y ffyrdd y gellid diwallu anghenion a restrir yn adran 20.

- Roedd **gwelliant 139** yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau uniongyrchol yn Rhan 4 o'r Bil sydd bellach yn darparu ar gyfer rheoliadau sy'n pennu'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd i sicrhau y gall defnyddwyr posibl taliadau uniongyrchol wneud dewis gwybodus ynghylch cael gwasanaethau yn y ffordd hon.

## Codi tâl

- Roedd **gwelliannau 79 (fel y'i diwygiwyd) (William Graham) ac 80 (fel y'i diwygiwyd) (William Graham)** yn dileu pŵer awdurdodau lleol i godi tâl am wybodaeth a chyngor o adran 54. Roedd hynny'n mynd i'r afael â rhai o bryderon y Pwyllgor a nodwyd yn argymhelliad 25 yn yr adroddiad Cyfnod 1.

## Mabwysiadu a maethu

- Roedd **diwygiadau 190-194** yn gwneud newidiadau i adran 65 i'w gwneud yn bosibl i blant gael eu lleoli gyda darpar fabwysiadwyr yn gynharach yn y broses fabwysiadu. Mae'r newidiadau hefyd yn ei gwneud yn bosibl cynnwys pobl sydd wedi'u cymeradwyo gan asiantaeth fabwysiadu fel darpar fabwysiadwyr, gan ddileu'r angen am gofrestru ychwanegol drwy'r awdurdod lleol. Mae'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

- Roedd **diwygiadau 202-205** yn ymwneud â rheoliadau ynghylch rhieni maeth awdurdod lleol. **Roedd diwygiadau 202-204** yn mewnosod cyfeiriadau at ddarpar fabwysiadwyr yn adran 76 sy'n cynnwys pwerau i wneud rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth yr awdurdod lleol. Mae hyn yn caniatáu i unrhyw reoliadau o'r fath wneud darpariaethau ar gyfer darpar fabwysiadwyr yn ogystal â rhieni maeth awdurdod lleol.  Bwriad y diwygiadau yw hyrwyddo polisi o faethu er mwyn mabwysiadu.

## Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

- Mae **gwelliant 207** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi categorïau mewn rheoliadau, o dan adran 81, o blant y dylai awdurdodau lleol sicrhau cyswllt â hwy, yn ogystal â rhai sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl ymweld â grwpiau ychwanegol o blant sy'n agored i niwed, fel troseddwyr ifanc mewn sefydliadau diogel.
- Cytunwyd ar lawer o newidiadau pellach, a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru, i Ran 6 o'r Bil a oedd â'r nod o ddiogelu hawliau plant sy'n derbyn gofal. Roedd y rhain yn cynnwys **gwelliannau 298-310; a 317-375**.

## Dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg

- Roedd **gwelliant 42** yn diwygio adran 108 i roi dyletswydd ar "bartneriaid perthnasol" awdurdodau lleol i'w hysbysu am blant sy'n wynebu risg.

## Diogelu

- Roedd **gwelliant 45** yn mewnosod adran newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl a chyrff allweddol roi sylw i ganllawiau ar ddiogelu oedolion a phlant, gan ymestyn y gofyniad hwn y tu hwnt i awdurdodau lleol.
- Roedd **gwelliant 46** yn ychwanegu darparwyr gwasanaethau prawf fel partneriaid ar fyrddau diogelu oedolion a phlant yn adran 111.
- Roedd **gwelliant 147** yn ychwanegu adran newydd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar unrhyw orchymyn drafft a fyddai'n cyfuno byrddau diogelu oedolion a phlant o dan adran 117.

## Cyflwyno adroddiadau am ymyrraeth gan Weinidogion Cymru i'r Cynulliad

- Roedd **diwygiadau 483-486 (fel y'i diwygiwyd) (Elin Jones)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ynghylch unrhyw hysbysiadau rhybudd a roddwyd o dan adran 127(1) o'r Bil i awdurdodau lleol yr ystyrir eu bod yn methu neu'n gweithredu'n afresymol. Cafodd gofynion i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad am gynnydd yn dilyn ymyriadau o dan adran 128, a chyfarwyddiadau o dan adrannau 129, 130, 131 neu 133 eu cynnwys hefyd.

## Cydweithrediad a phartneriaeth

- Cytunwyd ar nifer fawr o welliannau sydd â'r nod o atgyfnerthu'r ddarpariaeth ar gyfer cydweithrediad a phartneriaeth yn Rhan 9 o'r Bil, a hynny rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid a rhwng awdurdodau lleol eu hunain.

## Gwasanaethau eirioli

- Yn ystod Cyfnod 1 gwnaeth y Dirprwy Weinidog ymrwymiad i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau eirioli i rai pobl o dan rhai amgylchiadau, ac i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chartrefi gofal cofrestredig roi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eirioli. Darparodd **diwygiadau 52-54** gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhain ac ar gyfer rheoliadau i ganiatáu i awdurdodau lleol godi tâl am wasanaeth eirioli, ond ni chytunodd y Pwyllgor ar y gwelliannau hyn. Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i ailystyried darpariaethau'r Bil o ran eirioli.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Methiant darparwr

- Roedd **diwygiadau 155-157** yn mewnosod adran newydd yn y Bil sy'n rhoi dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion oedolion neu eu gofalwyr yn dilyn methiant ar ran darparwr. Mae hyn yn adlewyrchu dull gweithredu ehangach ym mhedair gwlad y DU, sy'n cynnwys cytundeb ar ymdrin â lleoliadau trawsffiniol.

## Gorchmynion a rheoliadau

- Mae **gwelliant 177** yn ychwanegu rhannau pellach o'r Bil at adran 165(5) sy'n rhestru'r gorchmynion a'r rheoliadau hynny a fyddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn mewn ymateb i argymhellion 3, 5 a 9 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil.

# Y camau nesaf

Mae clercod Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth wedi paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Bil ac mae Memorandwm Esboniadol diwygiedig wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi gan y Swyddfa Gyflwyno.

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 12 Rhagfyr 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Chwefror a 11 Chwefror 2014.

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r prif glerc cyfrifol, Helen Finlayson (**helen.finlayson@cymru.gov.uk**).